❖ Na, ni Fum ym Methlem

Ni fûm yng ngwlad Jwdea,
Ni fûm ym Methlem dref,
Ni welais lety'r ychen
Na'r crud lle ganwyd Ef.
Ni welais Mair na Joseff
Na'r baban Iesu ei hun,
Ond 'nôl yr hyn a glywais,
Hwn oedd y tlysaf un.

Ni welais y bugeiliaid
Na'u diadelloedd mud,
Na'r doethion dri o'r Dwyrain
Na'r fintai ddaeth ynghyd.
Ond gwn am stori'r geni,
Mae yn y llyfr mawr,
Mae'n hen gyfarwydd i ni
A'i hadrodd wnaf yn awr.

Tra'n gwylio'u preiddiau llonydd
Rhwng nos a thoriad gwawr,
Daeth engyl ar gymylau –
O'r nefoedd fry i lawr.
Gogoniant i'r goruchaf
Oedd cân yr engyl lu,
'Draw 'mhell yn ninas Dafydd
Mae gweld y baban cu.'
Cewch weld y doethion yno
Yn plygu ar y gwair –
Yn rhoddi eu hanrhegion,
Y myrr, y thus, a'r aur.

Ni fûm yng ngwlad Jwdea,
Ni fûm ym Methlem dref,
Ond gwn yn ôl yr hanes
Mai yno y ganwyd Ef.
Na allem oll fynd yno
A phlygu wrth ei grud,
A diolch o un galon
Am eni Crist i'r byd.

J. Meirion Evans

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com